




Swansea University
Prifysgol Abertawe

Gwasanaethau Preswyl



Llawlyfr i Breswylwyr

Tŷ Beck

www.swansea.ac.uk/cy/llety



Cynnwys

- Tud 3 CROESO
- Wifi
 - Casglu Post
- 4 HANFODION PRESWYLWYR
- Cwblhau Eich Rhestr Gynnwys
 - Golchdy
 - Allweddi a Chloi Allan
 - Tudalen We Gwybodaeth i Breswylwyr T
 - Gwasanaethau Brys
- 5 PWY YW PWY?
- Tîm eich Preswylfa
 - Cynorthwywyr Bywyd Preswylfa (RLA)
- 6 ADNABOD ERAILL
- Rhwydwaith y Preswylwyr a Chymorthfeydd Preswylwyr
 - Cyfryngau Cymdeithasol
- 7 GWYBODAETH SYLFAENOL
- Ymwelwyr
 - Cymorth gyda Chyfarpar
 - Cynladwyedd ac Ailgylchu
 - Swyddfa Ganolog Gwasanaethau Preswyl
- GLANHAU
- Glanhau
 - Cyngor ar Hylendid Bwyd
- TREFNU
- Caffis, Barrau a Siopau
 - Yswiriant Eiddo Personol
 - Trwyddedau Teledu
- CYNNAL A CHADW A THRWSIO
- Rhoi gwybod bod angen gwaith trwsio
 - Gwaith trwsio brys
 - Gwiriadau diogelwch a chynnal a chadw
 - Anwedd

- Tud 11 TRAFNIDIAETH AC ARIAN
- Parcio
 - Bysus
 - Beicio
 - Seiclo Santander
 - Banciau
 - Swyddfa Cyngor a Chymorth Ariannol
- 12 DIOGELWCH TÂN
- Diogelwch Tân
 - Os byddwch yn dod ar draws tân
 - Driliau tân
 - Profion larwm tân
 - Diffoddwyr tân
- IECHYD A CHYMORTH
- Cofrestru gyda deintydd a meddyg teulu
 - Cyffuriau ac Alcohol
 - Polisi Di-fwg
 - Llid yr Ymennydd
 - Clinig Osteopatheg
 - BywydTawe
- 14 DIOGELWCH PERSONOL
- Diogelwch personol
 - Diogelwch
- 15 MATERION GWEINYDDOL
- Cwestiynau am denantiaeth
 - Ffioedd preswyl
 - Newid ystafell
 - Gohirio astudiaethau neu dynnu'n ôl
 - Rhyddhau o gontract
- 16 DIWEDD TENANTIAETH
- 17 CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

CROESO

..... i Dŷ Beck, eich cartref am y flwyddyn nesaf.

Bydd y Llawlyfr i Breswylwyr yn rhoi gwybodaeth am yr hyn sydd angen i chi ei wybod am fyw yn ein preswylfeydd ac i'ch helpu i ymgartrefu.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau byw yn ein llety!

WIFI

Mae cysylltiad diwifr â'r rhyngwrwd ar gael i'r holl fyfyrwyr. Byddwch yn defnyddio'r un rhwydwaith yn eich llety ag y byddwch ar y campws.

Yn gyntaf, mae angen i chi weld y rhestr o'r holl rwydweithiau diwifr sydd ar gael ar eich dyfais/dyfeisiau a chysylltu â **SwanseaUni-setup**.

Unwaith i chi gysylltu â hwn, agorwch borwr gwe, megis Chrome neu Internet Explorer, a chewch eich cyfeirio i wefan SWIS: https://swanseauni-wifi.swan.ac.uk/index_cy.php (Gwasanaeth Rhyngrwd Diwifr Abertawe).

Yng ngwefan SWIS, dilynwch y cyfarwyddiadau cam wrth gam a roir ar gyfer:

1. Cofrestru'ch dyfais/dyfeisiau gan ddefnyddio Ffurflen Gofrestru
2. Cyflunio'r cysylltiad gan ddefnyddio offer gosod
3. Mynd ar-lein gan ddefnyddio'ch manylion mewngofnodi
Eich enw defnyddiwr yw eich cyfeiriad e-bost e.e. 123456@abertawe.ac.uk
Eich cyfrinair yw'r hyn a osodoch eisoes ar gyfer e-byst, y fewnwyd etc. Os nad ydych wedi gosod cyfrinair, mae'r cyfrinair diodyn yn gyfuniad o'ch rhif myfyriwr a'ch dyddiad geni ar y ffurf in the format **rhifmyfyriwr/dd/mm/bbbb**

Os cewch broblemau technegol, ewch i Ddesg Gymorth Cymorth TG yn y Llyfrgell.

CASGLU POST

Caiff llythyron eu dosbarthu i Flociau Bloc A, B ac C.

Caiff llythyron ar gyfer Blociau D, E, F a G eu didoli i flychau llythyron.

Pan dderbynnir parseli, rydym yn arddangos bwrdd yn ffenestr y swyddfa gyda rhif y bloc/ystafell yn rhoi gwybod i chi ei gasglu o'r dderbynfya. Cofiwch ddod â'ch cerdyn myfyriwr.

CODAU POST

BLOC	COD POST	BLOC	COD POST
A	SA2 0NF	E	SA2 0NG
B	SA2 0NF	F	SA2 0NH
C	SA2 0NF	G	SA2 0NL
D	SA2 0NF		

HANFODION PRESWYLWYR

CWBLHAU EICH RHESTR GYNNWYS

Unwaith i chi gasglu'ch allweddi a gwirio'ch ystafell, bydd gennych saith niwrnod i gwblhau eich rhestr gynnwys ar-lein:

<http://onlineinventory.swansea.induction.org.uk/student/StudentRegistration.aspx>

Dyma'ch cyfle i nodi unrhyw eitemau coll neu ddifrod a welwch pan fyddwch yn symud i mewn am y tro cyntaf, neu fe allech dderbyn anfoneb yn ddiweddarach.

(GAIR I GALL: Llenwch eich rhestr gynnwys gyda'ch rhieni/gwarcheidwaid cyn iddynt adael!)

GOLCHDY

Golchdai mewn preswylfeydd cymunedol.
Mae ystafell gyffredin gyda theledu yn fflat A2.

ALLWEDDI A CHLOI ALLAN

Mae'n digwydd... rydych yn colli'ch allwedd neu'n cloi eich hun allan o'ch ystafell.
Ewch i Dderbynfa Beck am allwedd dros dro i gael mynediad eto.

Dychwelwch yr allwedd erbyn 10am y bore canlynol i osgoi talu ffi am ddychwelyd yn hwyr.
Sylwer y codir ffi ar ôl i chi gloi eich hun allan bum gwaith ac am bob pum tro wedi hynny.

TUDALEN WE GWYBODAETH I BRESWYLWYR

Argymhellwn yn gryf eich bod yn rhoi nod tudalen (Ctrl+D) i dudalen we Gwybodaeth i Breswylwyr: fel y gallwch gyfeirio ati'n hawdd drwy gydol y flwyddyn ar gyfer dolenni cyflym a gwybodaeth sy'n benodol i'ch preswylfa pan fydd ei hangen arnoch yn gyflym: www.swansea.ac.uk/cy/llety/symud-i-mewn/gwybodaeth-i-breswylwyr-prifysgol-abertawe/
P'un ai eich bod wedi anghofio côd post eich bloc preswyl neu mae angen map o'r campws arnoch, maent ar gael yn rhwydd ar dudalen we Gwybodaeth i Breswylwyr

GWASANAETHAU BRYS

Ar gyfer y gwasanaethau brys (ambiwllans, yr heddlu, y gwasanaeth tân), ffoniwch **333** (am ddim o'r ffôn yn eich ystafell) neu **999 / 112** (o ffôn symudol).

Mae blychau Cymorth Cyntaf yn Nerbynfa'r Pentref a gall staff drin mân anafiadau.

P W Y Y W P W Y ?

TÎM EICH PRESWYLFA

Mae derbynfa eich preswylfa ar y safle. Galwch heibio os oes angen cymorth arnoch.
Mae Derbynfa Beck ar agor o **ddydd Llun i ddydd Gwener, 9:30am-10:30am a 2:30pm-3:30pm.**

Gall tîm eich preswylfa eich helpu â materion megis:

- Gwaith trwsio a chynnal a chadw
- Glanhau a phorthora
- Post a pharseli
- Darparu allweddi newydd os cewch eich cloi allan
- Cymdogion sy'n rhy swnllyd
- Unrhyw ymholiadau eraill mewn perthynas â'ch ystafell neu breswylfa

Cysylltwch â ni yn ystod oriau swyddfa: 01792 534043 (o'ch ffôn symudol)
84043 (am ddim o'ch ffôn)
beck-reception@swansea.ac.uk

Mewn argyfwng, cysylltwch â Thŷ Fulton: 01792 205678 (o'ch ffôn symudol)
84271 (am ddim o'ch ffôn)

E-bost: BeckWelfare@abertawe.ac.uk

CYNORTHWYWYR BYWYD PRESWYLFA (RLA)

Meddylwch amdanant fel wyneb cyfeillgar; rhywun a all rhoi cymorth bugeiliol ac ymarferol, gan gynnwys:

- Eich helpu i ymgartrefu
- Trafod materion gyda chydletywyr
- Cael sgwrs anffurfiol am bryderon neu ofidion
- Cynnig clust i wrando ar faterion personol
- Cynnig cyngor cyffredinol o safbwynt diduedd
- Eich cyfeirio at gymorth gan adrannau eraill

Cysylltu â'ch Cynorthwyyr Bywyd Preswylfa:

Dyddiau'r wythnos (diwrnodau gwaith)

2:00yp-10:00yh bob dydd. Gallwch fynd i Dderbynfa Beck pan fyddant wrth y Dderbynfa neu ar ddyletswydd o gwmpas y neuaddau. Neu ffoniwch 84043 (am ddim o'r ffôn yn eich ystafell) / 01792 534043 (o ffôn symudol).

Y Penwythnosau

Ar alwad mewn argyfwng, gan ddechrau am 9yb ar fore Dydd Sadwrn ac yn gorffen am 6yb ar fore Ddydd Llun. (Myfyrwyr i alw diogelwch - yna mi fydd diogelwch yn galw'r Cynorthwydd Bywyd Preswyl os fydd yn cael eu nodi fel argyfwng).

Ebost: BeckWelfare@abertawe.ac.uk

5

ADNABOD ERAILL

RHWYDWAITH Y PRESWYLWYR A CHYMORTHFYDD PRESWYLWYR

Mae Rhwydwaith y Preswylwyr (ResNet): <https://www.swansea.ac.uk/cy/llety/symud-i-mewn/rhwydwaith-preswylwyr/> yn fenter ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Preswyl ac Undeb y Myfyrwyr. Ei nod yw sicrhau y gall pob myfyriwr sy'n byw mewn preswylfa gael y profiad gorau posib i fyfyrwyr drwy drefnu tripiâu, digwyddiadau, gweithgareddau, cystadlaethau a hyrwyddo ymgyrchoedd.

Yn ogystal â'r ochr gymdeithasol, mae eich Cydlynnydd Bywyd Preswyl, Matthew, yn cynnal cymorthfeydd wythnosol yn Nerbynfa'r Pentref. Galwch heibio am sgwrs!

A yw eich cydletywr yn eich digalonni? Problemau yn y tŷ? Mae'n swnio'n amlwg, ond gellir osgoi nifer o broblemau drwy fod yn ystyriol o'r bobl eraill sy'n byw gyda chi.

Byddwch yn ymwybodol o lefelau sŵn, glendid, gofynnwch cyn benthycu rhywbeth a byddwch yn neis i'ch gilydd!

Neu, os na allwch gyrraedd cymhorthfa, e-bostiwch ms.turner@abertawe.ac.uk

CYFRYNGAU CYMDEITHASOL: FACEBOOK, BROWZER, TWITTER

Rydym wedi creu grwpiau Facebook i breswylfeydd penodol ar eich cyfer chi a'ch cydbreswylwyr. Dewch yn aelod o'ch grŵp i ddod i adnabod pwy sy'n byw'n agos atoch ac i dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddigwyddiadau ger eich neuadd. Dewch o hyd i'ch grŵp yn ein rhestr A-Y os nad ydych wedi ymuno eisoes.

(GAIR I GALL: Os byddwch yn colli rhywbeth, postiwch amdano yng ngrŵp Facebook eich preswylfa. Mae llawer o eitemau coll wedi'u dychwelyd at eu perchnogion cywir drwy ein preswylwyr ar ein tudalennau Facebook dros y blynyddoedd!)

Mae BROWZER yn llwyfan cyfathrebu hwylus i fyfyrwyr, a dyma'ch siop dan yr unto ar gyfer popeth y mae angen ei wybod am fyw mewn preswylfa.

Cadwch lygad am storiâu difyr, cyngor, hachiau bywyd, digwyddiadau, cystadlaethau a rhoddion!

TRYDARWCH eich cwestiynau, sylwadau ac adborth [@ResidenServices](https://twitter.com/ResidenServices)

GWYBODAETH SYLFAENOL

YMWELWYR

Caiff ymwelwyr sy'n 18 oed neu'n hŷn aros am hyd at ddwy noson ar y tro hyd at dair gwaith y tymor.

Yn achos myfyrwyr sy'n byw mewn ardal un rhyw, rhaid i'r ymwelwyr fod yr un rhyw â nhw.

CYMORTH GYDA CHYFARPAR

Mae llawlyfrau ar gyfer defnyddio cyfarpar trydanol yn Blackboard Student Services > University Residences drwy fewngofnodi i Myfyrio. Os ydych wedi dod â'ch cyfarpar trydanol eich hun, darllenwch ein Polisi Cyfarpar Trydanol a Phrofion PAT.

CYNALIADWYEDD AC AILGYLCHU

Mae'r Brifysgol yn ymroddedig i gynaladwyedd, ac anogwn ein holl fyfyrwyr i ailgylchu ac i reoli ynni yn dda, a fydd yn addysgu sut i arbed arian ar eich biliau pan fydd y mwyafrif ohonoch yn symud i dai myfyrwyr preifat yn eich blynyddoedd dychwelyd.

Diffoddwch oleuadau pan fyddwch yn gadael ystafell

Tynnwch blwg eich gwefrwr allan a diffoddwch liniaduron pan nad ydych yn eu defnyddio
Diffoddwch fotymau modd segur ar ddyfeisiau trydanol pan na fyddwch yn eu defnyddio

Am ragor o gyngor: Cynaladwyedd yn Abertawe, Arweiniad i Ailgylchu, Ailgylchu a Sbwriel.

SWYDDFA LLETY

Os oes gennych ymholiad ynghylch eich tenantiaeth, ewch i'r Gwasanaethau Preswyl yn Nerbynfa Penmaen ar Gampws Parc Singleton rhwng **9am a 4pm, o ddydd Llun** i ddydd Gwener.

Gall y Gwasanaethau Preswyl eich helpu ag ymholiadau ynghylch:

- Ffioedd preswyl
- Eich contract tenantiaeth
- Symud neu gyfnwid ystafell
- Tynnu'n ôl neu ohirio astudiaethau
- Rhestr aros llety

Cysylltwch â ni yn ystod oriau swyddfa:

01792 295101 (o'ch ffôn symudol)
82914 (am ddim o'r ffôn yn eich ystafell)
accommodation@abertawe.ac.uk

GLANHAU

GLANHAU

Rydym yn darparu gwasanaeth glanhau i ymdrin â materion iechyd a diogelwch mewn ceginau ac ystafelloedd ymolchi cymunedol unwaith yr wythnos.

Mae ein cyfrifoldebau ni'n cynnwys:

- Glanhau'r microdon, ffwrn, hob, llawr y gegin, byrddau a chadeiriau
- Glanhau tu allan yr oergelloedd a'r rhewgelloedd
- Gwirio waliau'r gegin, y byrddau sgyrtin, cypyrddau, ochr fewn y ffenestri a siliau'r ffenestri
- Glanhau'r toiled, y sinc, ardal y gawod a llawr yr ystafell ymolchi mewn ardaloedd cymunedol

Mae eich cyfrifoldebau chi'n cynnwys:

- Glanhau eich ystafell astudio eich hun, a'r en suite (os yw'n berthnasol).
- Cadw ystafelloedd ymolchi a rennir yn lân (os yw'n berthnasol).
- Golchi llestri'n rheolaidd a'u rhoi'n ôl yn y cypyrddau – peidiwch â gadael i'r llestri bentyrru, yn enwedig cyn y diwrnod glanhau, oherwydd bydd yn cyfyngu ar allu'r tîm domestig i lanhau.
- Cadw'r ffwrn a'r hob yn lân – mae saim wedi llosgi yn berygl tân.
- Sicrhau eich bod yn glanhau hylifau a ollyngwyd.
- Cymryd gofal o'ch dyfeisiau – bydd rhaid talu am unrhyw ddifrod neu waith cynnal a chadw o ganlyniad i ddiffyg gofal.
- Cadwch y grisiau a'r coridorau'n glir – peidiwch â storio eitemau yma.
- Peidiwch â symud celfi o ardaloedd dynodedig.
- Peidiwch â glynu eitemau ar y waliau, y nenfwd neu'r drysau – mae hyn yn berygl tân ac mae staff wedi cael cyfarwyddyd i'w tynnu i ffwrdd.

CYNGOR AR HYLENDID BWYD

- Cadwch eich dwylo'n lân drwy eu golchi'n rheolaidd
- Defnyddiwch glytiau glanhau tafladwy i osgoi lledu bacteria
- Golchwch offer a theclynnau bob amser ar ôl paratoi bwyd
- Cadwch y gegin yn lân – mae bwyd dros ben yn denu plâu
- Gorchuddiwch glwyfau agored pan fyddwch yn paratoi bwyd
- Cadwch bob bwyd risg uchel yn yr oergell e.e. cig, dofednod, pysgod, cynnyrch llaeth
- Peidiwch â rhoi gormod o bethau yn yr oergell
- Dylech ddadrewi'r rhewgell unwaith y tymor
- Cadwch fwyd sydd wedi'i goginio a bwyd sydd heb ei goginio ar wahân
- Cadwch at ddyddiadau 'Defnyddio Erbyn' a 'Gorau Cyn'

TREFNU

CAFFIS, BARRAU A SIOPAU

Gellir cerdded o Dŷ Beck i ardal fywiog Uplands, lle mae Tesco Express, Sainsbury's Local, Uplands Diner a llawer o leoedd eraill i fwyta neu brynu bwyd parod.

YSWIRIANT EIDDO PERSONOL

Mae eich eiddo personol wedi'i yswirio drwy bolisi yswiriant eiddo Endsleigh.

Eich rhif polisi: **HH1083** Lawrlwytho eich tystysgrif:

www.swansea.ac.uk/cy/llety/symud-i-mewn/yswiriant-endsleigh/

Anogwn i chi adolygu'ch yswiriant er mwyn:

- Gwirio beth sydd wedi'i gynnwys
- Gwirio eithriadau a chyfyngiadau allweddol
- Gwirio tâl dros ben y polisi
- Gwirio sut i wneud hawliad
- Penderfynwch a ydych am ymestyn a phersonoli'ch yswiriant i ddiogelu eitemau gwerthfawr eraill

TRWYDDEDAU TELEDU

Os ydych yn gwyllo rhaglenni teledu'n fyw h.y. wrth iddynt gael eu dangos ar y teledu, ar-lein neu ar unrhyw ddyfais, yn ôl y gyfraith rhaid bod gennych drwydded deledu.

O dymor yr Hydref 2016, bydd yn rhaid i unrhyw un sy'n lawrlwytho neu sy'n gwyllo rhaglenni BBC ar gais - gan gynnwys Teledu Dal i Fyny - ar BBC iPlayer fod yn berchen ar Drwydded Deledu. Mae hyn yn berthnasol i bob dyfais, gan gynnwys teledu deallus, cyfrifiadur desg neu liniadur, ffôn symudol, llechen, bocs digidol neu gonsol gemau. Dyna'r drefn hyd yn oed os ydych chi'n cael mynediad i BBC iPlayer drwy ddarparwr arall megis Sky, Virgin Media neu BT.

SYLWER: Pan fyddwch yn byw ym mhreswylfeydd y Brifysgol, rhaid cael trwydded deledu ar gyfer pob ystafell â chlo ar y drws (os yw'r preswylfeydd yn gwyllo rhaglenni teledu'n fyw yn yr ystafell honno); nid yw trwydded deledu yn gymwys ar gyfer y fflat i gyd.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.tvlicensing.co.uk/languages/LANG1

CYNNAL A CHADW A THRWSIO

RHOI GWYBOD BOD ANGEN GWAITH TRWSIO

Os oes angen trwsio rhywbeth, gallwch roi gwybod yn Nerbynfa Beck neu drwy e-bostio s.c.lewis@abertawe.ac.uk

GWAITH TRWSIO BRYS

Enghreifftiau o waith trwsio brys:

- Nwy yn gollwng
- Gollyngiadau dŵr difrifol
- Methiant llwyr y system wresogi (yn dibynnu ar adeg y flwyddyn)
- Methiant llwyr y cyflenwad trydan
- Diffygion trydanol difrifol
- Problemau difrifol gyda draenio

Y tu allan i oriau swyddfa, ffoniwch y tîm Diogelwch ar 84271 (am ddim o'r ffôn yn eich ystafell) / 01792 205678 (o ffôn symudol)

GWIRIADAU DIOGELWCH A CHYNNAL A CHADW

Cynhelir archwiliadau ddwywaith y flwyddyn gan staff i wirio diogelwch a chynnal a chadw ac i sicrhau eich bod yn cymryd gofal o'ch llety. Gall ystafelloedd neu ardaloedd cymunedol nad ydynt yn cael eu cadw'n rhesymol o lân fod yn risg i iechyd ac effeithio ar breswylwyr eraill hefyd. Byddwn yn rhoi digon o rybudd i chi cyn archwiliadau.

ANWEDD

Mae anwedd yn broblem gyffredin mewn llety myfyrwyr. Mae'n digwydd pan fydd aer llaith a chynnes yn dod i gysylltiad ag arwyneb oer – wal neu ffenestr fel rheol. Mae lleithder yn yr aer yn creu haen o ddŵr ar arwynebau oer lle gall llwydni du dyfu.

Er ei fod yn edrych yn salw, nid lleithder ydyw, a gellir ei sychu'n hawdd. Nid yw anwedd yn golygu bod problem gyda strwythur yr adeilad, caiff ei achosi gan arferion byw.

Ffyrdd o atal llwydni anwedd:

- Awyrwch eich ystafell bob dydd/agorwch y ffenestri – mae aer sych a glân yn helpu i atal y llwydni rhag ffurfio.
- Sicrhewch fod digon o wres – nid oes rhaid i hyn fod ar dymheredd uchel.
- Sychwch ddŵr i ffwrdd o ardaloedd y ffenestri'n rheolaidd.
- Osgowch sychu dillad ar reiddiaduron – bydd hyn yn achosi mwy o leithder yn yr aer.
- Symudwch gelfi neu eitemau eraill i ffwrdd o'r waliau, oherwydd maent yn atal aer rhag llifo'n rhydd.
- Ni ddylid rhwystro awyrdyllau fyth.
- Defnyddiwch y ffan echdynnu wrth goginio.

Rhagor o wybodaeth am [atal anwedd a llwydni](#).

TRAFNIDIAETH AC ARIAN

PARCIO

Mae parcio am ddim ar gael ar y safle i breswylwyr Tŷ Beck.
SYLWER: Ni chaiff myfyrwyr barcio ar y naill gampws na'r llall.

BYSUS

Mae gwasanaeth bysus rheolaidd rhwng y ddau gampws, Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan a chanol y ddinas. Mae bysus drwy ardaloedd cyfagos, megis Brynmill, Uplands a Sgeti hefyd. Am ragor o wybodaeth ac amserlenni, gwiriwch [cynllunydd siwrnai Traveline Cymru](#).

BEICIO

Gellir cadw beiciau yn y preswylfeydd.

Mae rhai safleoedd beiciau (mae angen allwedd preswylfa) a rhai safleoedd agored ar y safle. Rhaid i fyfyrwyr ddefnyddio eu clo beic eu hunain.

Ni all y Gwasanaethau Preswyl gymryd cyfrifoldeb am feiciau a gedwir yn y safleoedd beiciau. Atgoffir y preswylwyr y dylid cadw beiciau'n ddiogel ar bob adeg a chau drws y safle beiciau wrth adael.

SEICLO SANTANDER

Cynllun llogi beiciau y gall pawb ei ddefnyddio yw Santander Cycles Abertawe. Mae 'n hwyl, yn fforddiadwy a chynaliadwy i fynd o amgylch Abertawe. Gallwch gasglu a gollwng y beiciau mewn unrhyw ganolfan – Mae pump wedi 'u lleoli 'n gyfleus ar hyd cyrchoedd Bae Abertawe. Gallwch stopio a pharcio eich beic ar unrhyw adeg a hyd yn oed yn cofrestru ar gyfer aelodaeth flynyddol o £30 ar gyfer yr holl fyfyrwyr. Gallwch feicio ar hyd y promenâd neu fynd i lawr y Mwmbwls a 'r beiciau ac maent yn hawdd iawn i 'w defnyddio.

BANCIAU

Mae Banc Lloyds yn Uplands a rhai peiriannau arian parod ger Tesco Express a Sainsbury's Local.
Campws Parc Singleton: Santander (Tŷ Fulton) a Banc Lloyds (llawr gwaelod Taliesin).
Peiriannau arian parod yn Nhŷ Fulton ac ar lawr cyntaf Tŷ Undeb.
Campws y Bae: Peiriant arian parod y tu allan i Tesco.

ARIAN@BYWYDCAMPWS

Os oes gennych broblemau arian, yn enwedig o ran talu'ch ffioedd llety, ewch i'r Gwasanaethau Preswyl, a fydd yn cysylltu ag [Arian@BywydCampws](#) i geisio'ch helpu. Mae'n bwysig iawn eich bod yn cadw mewn cysylltiad â ni ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni.

Gall [Arian@BywydCampws](#) roi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar ymholiadau arian myfyrwyr a helpu â chyllidebu effeithiol.

Wrth ferwi'r tegell, berwch faint sydd ei angen arnoch yn unig

DIOGELWCH TÂN

DIOGELWCH TÂN

Chwiliwch am yr arwyddion tân a diogelwch yn eich llety – maent yno i sicrhau eich diogelwch. Darperir taflenni gwybodaeth diogelwch tân ar gefn drws eich ystafell astudio ac maent wedi'u harddangos yn ardal y gegin.

- Cadwch yr holl ardaloedd cymunedol, coridorau a'r allanfeydd tân yn glir o eiddo personol ar bob adeg – yn enwedig pethau sychu dillad a byrddau smwddio. Dylid smwddio yn y gegin neu'r ystafell wely, heb rwystro llwybr i allanfa dân fyth.
- Mae sail wedi llosgi ar hob ffwrn yn berygl tân, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn eu glanhau yn rheolaidd.
- Mae canhwylau, ffyn arogldarth a llosgwyr arogldarth yn berygl tân, ac ni chaniateir hwy yn y preswylfeydd.
- Ni chaniateir gwresogyddion personol, tuniau nwy a deunyddiau llosgadwy eraill yn y preswylfeydd.
- Rhaid defnyddio a chadw cyfarpar coginio personol (megis plât poeth, griliau, tostiwr brechdanau a phopty reis) yn y gegin yn unig. Ni chaniateir defnyddio eitemau felly yn yr ystafelloedd gwely.
- Mae peiriannau ffrio dwfn yn berygl tân ac ni chaniateir hwy yn y preswylfeydd.

Rydym yn cael llawer o broblemau ar ddechrau'r tymor gyda stêm o gawodydd yn achosi i'r larymau ganu, felly cofiwch gau drws yr ystafell ymolchi yn ystod ac ar ôl cael cawod. Pan fo larymau tân yn canu, caiff y frigâd dân ei galw'n awtomatig, felly mae galwadau diangen yn gwastraffu adnoddau.

Mae nodiadau cryno a hawdd mynd atynt ar ddiogelwch tân ar gael drwy fewngofnodi i'ch Sesiwn Sefydlu yn eich Cyfrif Llety. Bydd y modiwl yn cymryd ychydig funudau'n unig, ac mae'n gam cyflym i ofalu am eich hun ac am y bobl sy'n byw gyda chi. Gallwch hefyd wyllo'r Fideo Diogelwch Tân ar-lein: <https://www.swansea.ac.uk/cy/llety/canllaw-a-i-y/facebook-trydar-a-chyfyngau-cymdeithasol/> i weld pa mor gyflym y gall tân ledu mewn ystafell wely myfyriwr.

Cofiwch fod rheolau a rheoliadau tân yno i'ch diogelu chi a'r preswylwyr eraill rhag peryglon achosi tân. Rydym yn gyfrifol am sicrhau eich bod yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng, felly rhowch amser i ymgylfarwyddo â'r hanfodion sylfaenol i'ch cadw'n ddiogel.

OS BYDDWCH YN DOD AR DRAWS TÂN, DRILIAU TÂN, PROFION LARWM TÂN, DIFFODDWYR TÂN

Mae gofyniad cyfreithiol ar y Brifysgol i gynnal driliau gwacáu mewn tân yn ei holl adeiladau. Bydd rhaglen reolaidd o ddriliau ar gyfer y flwyddyn academiaidd hon yn dechrau'n fuan ar ôl ichi gyrraedd.

Cynhelir profion larymau tân bob wythnos ar fore lau.

IECHYD A CHYMORTH

COFRESTRU GYDA DEINTYDD A MEDDYG TEULU

Rhaid i chi gofrestru gyda meddyg a deintydd yn Abertawe. Mae Canolfan Iechyd y Brifysgol ar lawr gwaelod Preswylfa Penmaen ac mae deintydd ym Mhreswylfa Horton, ill dau ar Gampws Parc Singleton.

CYFFURIAU AC ALCOHOL

Ni chaniateir defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn y preswylfeydd. Polisi Cyffuriau a Pholisi Alcohol y Brifysgol: www.swansea.ac.uk/cy/gwasanaethau-academaidd/canllaw-academaidd/rheoliadau-arall-y-brifysgol/polisi-alcohol/

POLISI DI-FWG

Mae gan Brifysgol Abertawe Bolisi Di-fwg sy'n golygu na chaniateir smygu yn eich ystafell, ein preswylfeydd nac yn unrhyw un o adeiladau'r Brifysgol. Am ragor o wybodaeth, darllenwch Bolisi Di-fwg y Brifysgol.

LLID YR YMENNYDD

Myfyrrwyr yw'r ail grŵp risg uchaf ar gyfer llid yr ymennydd, gyda hyd at 25% o fyfyrwyr yn cario'r bacteria sy'n achosi'r clefyd. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cael eich imiwneiddio yn erbyn llid yr ymennydd, clwy'r pennau, y frech goch a rwbela. Mae myfyrrwyr yn eu hwythnosau cyntaf yn y brifysgol ar eu mwyaf agored i niwed!

Mynnwch frechlyn. Os nad ydych wedi cael eich imiwneiddio, cynghorir i chi gael eich brechu cyn dod i'r brifysgol am ei fod yn cymryd 10 niwrnod i fod yn effeithiol. Mae sawl gwahanol fath o lid yr ymennydd, ac er ei fod yn bosib bod llawer ohonoch wedi cael brechlyn yn erbyn llid yr ymennydd C, nid oes ffordd o atal haint gan lid yr ymennydd B, y ffurf facterol mwyaf cyffredin.

Am ragor o wybodaeth, ewch i Sefydliad Ymchwil Llud yr Ymennydd – symptomau ymhlith pobl ifanc

CLINIG OSTEOPATHEG

Os ydych yn dioddef poen cefn, anaf chwaraeon, pen tost neu arthritis, cysylltwch â Chlinig Osteopatheg Parc Singleton drwy ffonio 01792 518600 neu e-bostio osteopathclinic@swansea.ac.uk

BYWYDCAMPWS

Mae holl fyfyrwyr Prifysgol Abertawe'n elwa o ddefnyddio'r Adran BywydCampws, sy'n rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ag ystod eang o faterion. Ewch i wefan BywydCampws: am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael yn Abertawe.

DIOGELWCH PERSONOL

DIOGELWCH PERSONOL

Byddwch yn ddiwyd a gofawch am eich hun a'ch diogelwch drwy gofio'r cyngor canlynol:

- Ewch â'ch ffôn symudol gyda chi i bob man, a pheidiwch â'i adael lle gall pobl ei weld.
- Mae pawb yn fwy agored i droseddau ar ôl yfed. Os ydych yn cynllunio noson allan fawr, trefnwch ymlaen llawn i fynd adref gyda ffrindiau neu mewn tacsî.
- Gall dynion a menywod ddiodef sbeicio diod. Cadwch lygad ar eich diodydd a rhowch eich diod i ffrind pan fyddwch yn mynd i'r toiled.
- Defnyddiwch beiriannau arian parod yn gall, mewn grwpiau, ac yn ystod y dydd os yn bosib. Rhowch eich cerdyn a'ch arian i gadw yn gyflym a byddwch yn ymwybodol o bwy sydd o'ch amgylch. Peidiwch BYTH ag ysgrifennu eich PIN!
- Peidiwch byth â cherdded ar eich pen eich hun. Mae lladron yn chwilio am dargedau hawdd. Cerddwch mewn grwpiau gyda'r nos, teithiwch mewn tacsî neu arhoswch gyda ffrind rydych yn ymddiried ynddo. Mae eich diogelwch werth mwy na chost tacsî adref.

DIOGELWCH

Meddyliwch am eich diogelwch preswyl a byddwch yn ddiwyd bob amser. Clowch eich ystafell a chaewch y ffenestri a'r drws pan fyddwch yn mynd allan. Os na wnewch chi hyn, gallwch annilysu eich polisi yswiriant cynnwys, yn ogystal â pheryglu diogelwch y preswylwyr eraill. Mae byrgleriaethau mewn preswylfeydd yn brin, ond gall gadael drysau/ffenestri ar agor fod yn demtasiwn i ladron.

- Peidiwch â gadael unrhyw un nad ydych yn ei adnabod i mewn i'ch adeilad neu fflat
- Clowch eich ystafell, hyd yn oed os ydych yn mynd allan am eiliad yn unig
- Peidiwch â gadael eiddo gwerthfawr lle gellir eu gweld – rhowch nhw o'r golwg neu clowch nhw mewn man diogel
- Os ydych ar y llawr gwaelod, caewch eich ffenestr pan fyddwch yn gadael eich ystafell
- Cysylltwch â'r tîm Diogelwch os byddwch yn gweld unrhyw beth amheus
- Dywedwch wrth eich cymdogion os byddwch yn mynd i ffwrdd i osgoi achosi pryder

Os oes angen i chi roi gwybod am ladrad, ffoniwch yr heddlu a Derbynfa Beck ar 01792 456999 (bydd angen cyfeirnod trosedd arnoch ar gyfer hawliad yswiriant).

Mae staff diogelwch y campws yn cynnal patrolau drwy gydol y nos. Mae heddwes mewn lifrau a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu mewn lifrai ar y campws.

Mewn argyfwng, ffoniwch dîm Diogelwch y Brifysgol 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos yn uniongyrchol o'r ffôn yn eich ystafell ar **333**, neu **999/112** o ffôn symudol.

Os nad yw'n argyfwng, ffoniwch dîm Diogelwch Tŷ Fulton:

84271 (am ddim o'r ffôn yn eich ystafell) / 01792 205678 (o ffôn symudol)

MATERION GWEINYDDOL

CWESTIYNAU AM DENANTIAETH?

Os oes gennych ymholiad ynghylch eich tenantiaeth, ewch i'r Gwasanaethau Preswyl yn Nerbynfa Penmaen ar Gampws Parc Singleton rhwng **9am a 4pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener**.

Gall y Gwasanaethau Preswyl eich helpu ag ymholiadau ynghylch:

- Ffioedd preswyl
- Eich contract tenantiaeth
- Symud neu gyfnwid ystafell
- Gohirio astudiaethau neu dynnu'n ôl
- Rhestr aros llety

Cysylltwch â ni yn ystod oriau swyddfa: 01792 295101 (o'ch ffôn symudol)
82914 (am ddim o'r ffôn yn eich ystafell)
accommodation@abertawe.ac.uk

FFIOEDD PRESWYL

Mae manylion eich ffioedd a dyddiadau talu yn eich Cytundeb Trwydded. Mae'r wybodaeth ar gael ar ein tudalen we Ffioedd Preswyl 2019 hefyd: www.swansea.ac.uk/cy/llety/ffioedd-llety1920/
Y ffordd hawsaf o dalu'ch Ffioedd Preswyl yw sefydlu debyd uniongyrchol a delir bob tymor.

NEWID YSTAFELL

Mae ein rhestr drosglwyddo'n agor ganol mis Hydref pan allwch gwblhau ffurflen cais am drosglwyddo. Rydym yn gweithredu cynllun cyfnwid ystafelloedd hefyd. Ymunwch â'n grŵp Facebook *Residents Room Swap* am ragor o wybodaeth: <https://www.facebook.com/groups/503559347117007/>

GOHIRIO ASTUDIAETHAU NEU DYNNU'N ÔL

Os ydych yn gohirio neu'n tynnu'n ôl o'ch astudiaethau ym Mhrifysgol Abertawe, dewch i'n gweld er mwyn i ni drafod beth mae angen i chi ei wneud.

RHYDDHAU O GONTRACT

Yr unig amgylchiadau pan ellir eich rhyddhau o'ch contract cyn ei ddiwedd (ac eithrio gadael y Brifysgol) yw os bydd myfyriwr newydd (nad yw'n byw ym mhreswylfeydd y Brifysgol ar hyn o bryd) yn cymryd eich ystafell.

Mae gwybodaeth am ryddhau o lety ar gael ar ein tudalen we Storfa Ddogfennau: www.swansea.ac.uk/cy/llety/storfa-ddogfennau/

Caiiff sbwriel ei gasglu o'r preswylfeydd ddwywaith yr wythnos gan gontractwyr y preswylfeydd. Er iechyd a diogelwch, os cechwch fod sbwriel yn gorlenwi yn eich fflat, ewch ag ef i'r biniau mawr y tu allan i'ch preswylfa.

DIWEDD Y DENANTIAETH

GADAEL

Cewch adael eich llety cyn dyddiad diwedd eich contract, ond nid yw'n newid eich ymrwymiad cytundebol neu ariannol i'r llety.

Os ydych yn tynnu'n ôl neu'n gohirio'ch astudiaethau, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Preswyl drwy lawrlwytho a chwblhau'r ffurflen briodol o'r dudalen we Storfa Ddogfennau: www.swansea.ac.uk/cy/llety/storfa-ddogfennau/

Cofiwch, rydych yn gyfrifol am gyflwr eich ystafell ac ardaloedd cymunedol eich llawr, fflat neu dŷ tan ddiwedd eich contract.

Dilynwch y rhestr wirio o bethau i'w gwneud cyn i chi adael er mwyn sicrhau na chewch eich dirwyo!

1. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi symud allan o'ch ystafell erbyn 10am ar ddiwrnod olaf eich contract.
2. Penderfynwch ymlaen llaw gyda'ch cyd-letywr sut rydych yn mynd i drefnu glanhau'r ardaloedd cymunedol, megis y gegin a'r ystafelloedd ymolchi. Mae hyn yn bwysicach fyth os byddwch yn gadael ar adegau gwahanol.
3. Ewch â'ch holl eiddo o'ch llety, sy'n cynnwys eich ystafell; yr ardaloedd cymunedol, megis y gegin (yn enwedig cyfarpar a bwyd); y coridor; a'r ystafell ymolchi.
4. Glanhewch eich ystafell wely, gan waredu'r holl sbwriel.
5. Cofiwch gloi drws eich ystafell wely a chau'r ffenestr i atal unrhyw un rhag mynd i'ch ystafell ar ôl i chi adael.
6. Rhowch wybod i staff y llety am unrhyw ddifrod nad ydych wedi rhoi gwybod iddynt amdano eto. Ar ôl archwiliad trylwyr, os na allwn bennu sut yr achoswyd y difrod, gellir dal pawb yn yr ardal yn gyfrifol ar y cyd, ac anfonir anfoneb at bawb wedi i chi adael.
7. Dychwelwch unrhyw gyfarpar rydych wedi'u benthyca.
8. Llenwch y manylion ar eich amlen allweddi a'i dychwelyd i Dderbynfa Beck.

CASGLIADAU ELUSEN

Os oes gennych unrhyw eitemau diangen sydd mewn cyflwr rhy dda i'w gwaredu, ond nid ydych am fynd â nhw adref gyda chi, rhowch nhw i Sefydliad Prydeinig y Galon. Gadewch unrhyw eitemau diangen ym min elusen Sefydliad Prydeinig y Galon y tu allan i Dderbynfa Preseli cyn i chi adael. Neu ewch â nhw i siop elusen yn Uplands.

ANFON EICH POST YMLAEN

Os ydych wedi trefnu bod post yn cael ei ddanfoni i'ch cyfeiriad preswyl, cysylltwch â'ch banc, eich darparwr cerdyn credyd ac unrhyw bartïon perthnasol eraill i roi eich cyfeiriad newydd iddynt. Mae digon o dempledi llythyron safonol ar y we i'ch helpu.

Ni fydd y Gwasanaethau Preswyl yn anfon eich post ymlaen, a chaiff ei dychwelyd at yr anfonwr ar ddiwedd y contract.

DOLENNI DEFNYDDIOL

GWASANAETHAU'R BRIFYSGOL

Derbynfa Beck
Mewnol 84043
Estyniad 01792 534043
s.c.lewis@abertawe.ac.uk

Swyddfa Anabledau
Mewnol 83000
Estyniad 01792 293000
disability@abertawe.ac.uk

Cyllid (taliadau rhent)
Mewnol 83091
Estyniad 01792 513091
accommfinance@abertawe.ac.uk

Diogelwch Tŷ Fulon
Mewnol 84271
Estyniad 01792 205678
security@abertawe.ac.uk

Cynghorwyr Myfyrwyr Rhyngwladol
Mewnol 85984
Estyniad 01792 295984
isas@abertawe.ac.uk

Lles@BywydTawe
Mewnol 85592
Estyniad 01792 295592
wellbeing@abertawe.ac.uk

Arian@BywydCampws
Mewnol 86699
Estyniad 01792 606699
moneydoctors@abertawe.ac.uk

Gwasanaethau Preswyl
Mewnol 82914
Estyniad 01792 295101
accommodation@abertawe.ac.uk

Gwasanaethau Llety Myfyrwyr
Mewnol 85328
Estyniad 01792 295328
sas@abertawe.ac.uk

Gwasanaethau Myfyrwyr
Mewnol 82000
Estyniad 01792 292000
student.services@abertawe.ac.uk

Canolfan Gyngor Undeb y Myfyrwyr
Mewnol 85821
Estyniad 01792 295821
advice@swansea-union.co.uk

ACHOSION BRYG A DIOGELWCH

Gwasanaethau Bryg
Mewnol 333
Estyniad 999 / 112
security@abertawe.ac.uk

Swyddogion Heddlu ar y Campws
Mewnol 85882
Estyniad 01792 295882
police@abertawe.ac.uk

Swyddfa Heddlu Ganolog Abertawe
01792 456999

IECHYD

Llinell Gymorth Llud yr Ymennydd
08457 538118
www.meningitis.org

Galw Iechyd Cymru
0845 46 47
www.nhs.uk

DOLENNI DEFNYDDIOL

Am fwy o wybodaeth, porwch ein A-Y: www.swansea.ac.uk/cy/llety/canllaw-a-i-y/